# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

**Tydi, a roddaist liw i'r wawr**
**a hud i'r machlud mwyn,**
**tydi, a luniast gerdd a sawr**
**y gwanwyn yn y llwyn,**
**O, cadw ni rhag colli'r hud**
**sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.**

**T Rowland Hughes**
**Caneuon Ffydd 131**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

## Rhifyn 2
## PAPUR HYDREF 2024

# Gair gan ein Gweinidog

**Yr Aradr**

Mae’n Gynhaeaf a chyfle i ni ddod ynghyd ar gyfer ein Cyrddau Diolchgarwch.

Cefais y fraint o bregethu mewn Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Llanfihangel-uwch-Gwili ddiwedd Medi, eglwys fach wledig a chymuned glos yn addoli ynddi. Dyna ddysgu’r noson honno bod oedfa arbennig y cael ei chynnal y noson ganlynol yn Eglwys Sant Egwad, Llanegwad i groesawu a bendithio’r aradr. Roedd yr oedfa hon yn gysylltiedig â Phencampwriaeth Cymdeithas Aredig Cymru a oedd yn cael ei chynnal yn Nryslwyn y Sadwrn canlynol.

Mae’r aradr wedi bod yn bwysig i'r amaethwr bron o ddechrau hanes, a chafodd datblygiad yr aradr ddylanwad mawr ar ddatblygiad amaethu. Ei brif bwrpas yw troi’r haen uchaf o bridd. Yn draddodiadol, cafodd yr aradr ei dynnu gan ych ac yn ddiweddarach gan geffylau.



Nid yw’r ‘Aradr’ yn thema anghyfarwydd i feirdd Cymru ar hyd y canrifoedd. Yn wir, 80 mlynedd yn ôl i eleni, ym 1944 pan gynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llandybïe, enillodd J M Edwards (tad Emyr Edwards, y dramodydd, a’r llenor a’r bardd) y Goron am bryddest i’r ‘Aradr’.

Ceir nifer o gyfeiriadau yn y Beibl at yr aradr ac aredig. Trowch at Lyfr Genesis ac fe glywch Joseff yn datgelu ei hun i’w frodyr wedi iddo ddychwelyd ar ôl iddynt ei werthu i’r Aifft. Meddai *“bu newyn drwy’r wlad y ddwy flynedd hyn; a bydd eto bum mlynedd heb aredig na medi.”* (*Genesis* 45:6)

Ac wrth droi at y Testament Newydd fe gofiwn i Iesu, mewn ymateb i gais y dyn a oedd yn mynnu aros ar ôl i gyflawni rhai gorchwylion cyn Ei ganlyn ddweud wrtho: *“Nid yw’r sawl a*

*osododd ei law ar yr aradr, ac sy'n edrych yn ôl, yn addas i Deyrnas Duw." (Luc  9:62)*

Mae Luc yn dangos bod dilyn Iesu yn ymrwymiad difrifol. Ni allwn edrych yn ôl ar y gorffennol; mae angen inni gadw ein llygaid ar ein gwaith ac i ble y bydd yn mynd â ni yn y dyfodol. Os oes rhywun yn aredig cae ac yn edrych yn ôl, fydd y person hwnnw ddim yn cynhyrchu rhesi syth. Mae Iesu eisiau i'r dyn edrych yn syth ymlaen a gadael ei hen fywyd ar ôl.



***DYMA*** her i ni i gyd!  Yr unig ffordd o dalu'n dyled i gyfoeth ein  gorffennol yw drwy weithio at well dyfodol. Ymlaen!

**Gweddïwn**

**Gweddi'r Greadigaeth**



Dduw'r holl greadigaeth,
agor ein llygaid a'n calonnau
i ryfeddod a harddwch y greadigaeth;
lliwiau cyfnewidiol pob tymor,
y coetiroedd hynafol a'r blodau eiddil,
nentydd y mynydd a dyfnderoedd y cefnfor,
a phopeth sy'n tyfu ac sy'n byw,
yn sicrhau fod ein byd yn cael ei adnewyddu a'i gynnal.
Datgela i ni ein rhan yng ngofal y greadigaeth,
er mwyn i ni allu canfod iachâd a thangnefedd y tu mewn iddi,
heddiw ac yn y dyfodol.

**Amen**



## DARLLENIADUR



| Mis Hydref | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Salm 26** |
| **Wythnos 2** | **Salm 22: 1-15** |
| **Wythnos 3** | **Salm 104:1 -9, 24, 35c** |
| **Wythnos 4** | **Salm 34: 1-8** |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**a**
**BETI-WYN, ELIN WYN A SARA LLWYD**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

## RHAGLEN CYMDEITHAS YR OFALAETH

## ~ 2024/2025~

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 06.10.2024 | Sul | 5 | Y Priordy | Oedfa Ddiolchgarwch a Swper Cynhaeaf gyda'n Gweinidog a'r Hybarch Eileen Davies Archddiacon Aberteifi |
| | | | | |
| 08.10.2024 | Mawrth | 2 | Festri Heol Awst | Te Prynhawn i ddathlu pen-blwydd arbenning H Brinley Enoch yn 100 oed |
| | | | | |
| 22.10.2024 | Mawrth | 12 erbyn 12.30 | Gwesty'r Hebog | Cinio Diolchgarwch |

**CROESO CYNNES I BAWB**

## DIACONIAID NEWYDD HEOL AWST



## AELODAU NEWYDD HEOL AWST



**Gweler yr adroddiad am y Cwrdd Hanner Blynyddol**

**Joan Thomas…**



## OEDFA DERBYN AELODAU NEWYDD AC URDDO DIACONIAID NEWYDD

***HYFRYDWCH*** pur oedd gweld canol capel Heol Awst yn llawn ar gyfer Oedfa Hanner Blynyddol 'gwahanol' a gafwyd brynhawn Sul, 8 Medi. Seiliwyd yr oedfa ar fywyd yr eglwys, a derbyniwyd pump o aelodau newydd o had yr Eglwys a oedd yn dymuno dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys, ynghyd ag urddo pedwar diacon newydd. Er i'r eglwys ethol pump diacon ffaelodd Janet Evans â bod yn bresennol gan ei bod yn yr ysbyty, a mynegwyd ein dymuniadau gorau ni iddi wella'n llwyr yn fuan.



Yn dilyn croeso cynnes ein Gweinidog i bawb, yn arbennig i'r pregethwr gwadd, Y Parchg Irfon Roberts, Aberteifi, a'r organydd gwadd Meirion Wynn Jones, canwyd yr emyn cyntaf (Dyrchafwn ganiad newydd) o waith Amanwy a luniwyd ar gyfer dathlu canrif a hanner yr achos yng nghapel Gellimanwydd, Rhydaman. Yn dilyn y cyhoeddi a'r casglu, canwyd yr ail emyn (Un sylfaen fawr yr Eglwys) cyn i Lloyd Jones ddarllen Salm 92, yr unig Salm a ysgrifennwyd ar gyfer y Saboth, ac i Joan Thomas weddïo.



Ar ôl y trydydd emyn (O llanwa hwyliau d'Eglwys), testun Irfon Roberts oedd y Salm a ddarllenwyd yn gynharach yn yr oedfa. Mae'n Salm sy'n annog pobl i foli'r Arglwydd ar gân unrhyw adeg o'r dydd. Dyma'r Salm a ysgogodd Isaac Watts i gyfansoddi'r emyn "Gwaith hyfryd iawn a melys yw moliannu d'enw di, o Dduw". Cyfeiriodd at allu therapiwtig cerddoriaeth wrth egluro sut y defnyddiodd Dafydd ei delyn i dawelu Saul. Wrth fynd ymlaen cyfeiriodd at y pump aelod newydd a fwriodd eu gwreiddiau yn yr eglwys, a chael y cyfle i dyfu, yn arbennig mewn cariad a gwasanaethu cyd-ddyn. Hyd yn oed mewn anialwch, fel ein hoes ni, gellir tyfu a chynhyrchu ffrwyth, a thrwy wneud hynny, gyhoeddi bod yna weddill ffyddlon i'w cael o hyd. Emyn addas iawn, o waith John Roberts (Edrych ar y rhai sy'n ceisio), a ganwyd

cyn i Beti-Wyn dderbyn y diaconiaid a'r aelodau ifainc wrth fwrdd y Cymun. Mae'n debyg mai 'Gweddi dros gymunwyr ieuainc' oedd y teitl a roddodd yr awdur i'r emyn. Cyn rhannu'r bara a'r gwin cyfeiriodd at golled yr eglwys ym marwolaeth diweddar Brian Thomas, aelod gweithgar o'r eglwys, a chydymdeimlwyd yn ddwys â Freda, y merched, a'r teulu.

***YR*** emyn a ganwyd ar ddiwedd oedfa fendithiol a llawen iawn oedd yr emyn o fawl am yr eglwys (Am dy gysgod dros dy Eglwys) ar un o donau enwog Cymru, Coedmor, cyn i Beti-Wyn gyflwyno'r Fendith. Yn dilyn, parhawyd â'r gyfeillach, yn y festri, wrth fwynhau cwpanaid o de, cymdeithasu, a llongyfarch yr aelodau a'r diaconiaid newydd, gyda 'dy drugaredd yn ein cân.'



| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| **ELIM** | **Prynhawn Mercher 4 Rhagfyr** | **1.30** | **Capel Elim** |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher 27 Tachwedd** | **2.00** | **Festri Heol Awst** |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun 18 Tachwedd** | **7.30** | **Festri'r Priory** |

## RHAGLEN CYMDEITHAS CHWIORYDD ELIM

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **15.10. 2024** | **Mawrth** | **2** | **Festri Elim** | **Helen Jones yn trefnu blodau** |
| **26.11.2024** | **Mawrth** | **12** | **Pentrecelyn** | **Cinio Nadolig** |

**Carys Morgans…**



## Gwasanaeth Teulu Capel y Priordy
***8 Medi 2024***

Ar ddechrau tymor yr Hydref, braf oedd croesawu cymaint o'n teuluoedd yn ôl i'r Capel wedi gwyliau'r haf ar gyfer y gwasanaeth teuluol a hynny ar y thema 'Gwneud Gwahaniaeth'. Fe ddechreuodd y gwasanaeth gyda gweddi agoriadol a chroeso cynnes arferol Beti-Wyn, cyn i ni gydganu emyn 416 'Y mae i'n Waredwr' gyda chyfeiliant hwylus band y Priordy. Yn dilyn hyn fe gafwyd y cyhoeddiadau a'r casgliad. Diolch i Aneirin, Brynmor ac Alys am gasglu.

Yna fe ddaeth Greta Wyn a Miriam i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn 'Emaniwel' (rhif 417) ac wedi'r emyn fe ddaeth Cadi ac Ifan ymlaen i drafod sglodion a halen, a'r modd y gwnaeth Iesu ddysgu ei bobl gan ddweud 'Chi yw halen y ddaear'. Fel rhan o'r sgwrs cafwyd ffilm fer yn cyfleu'r neges ei bod yn bwysig canmol bobl eraill cyn meddwl am ein hun.

Yn nesaf daeth Sianco i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn 'Braf yw bwyta' cyn i Nel, Beca a Beti-Wyn ein harwain mewn gweddi a oedd yn diolch am bob cyfle sy'n dod gerbron ac yn gofyn am gymorth yr Arglwydd i fod fel halen sydd yn rhoi blas da i'n bywydau. Wedi Gweddi'r Arglwydd fe ddaeth y band taro i helpu band y Priordy wrth i ni gydganu emyn 794 'Cristion bychan ydwyf'.




Wedi hyn, dyma ni'n ymuno â Beti-Wyn yn ei labordy! Gwnaeth ein Gweinidog arbrawf gyda 2 wydraid o ddŵr a 2 wy. Yn un gwydraid, cyn rhoi'r wy i mewn fe roddwyd halen yn y dŵr. Yna pan roddwyd yr wy i mewn, fe welwyd ei fod yn arnofio. Fodd bynnag, yn y gwydraid o ddŵr heb halen, fe suddodd yr wy i'r gwaelod. Neges yr arbrawf oedd i ni geisio ein gorau i fod fel yr halen, a gwneud gwahaniaeth i eraill, yn union fel mae'r mefus yn troi llaeth yn ysgytlaeth ac mae caws yn troi bara yn frechdan.


Diolch yn fawr i Beti Wyn am yr arbrawf a’r neges pwrpasol ar ddechrau’r tymor newydd.

Daeth y gwasanaeth i ben drwy ganu emyn rhif 401 ‘Mae nghalon mor llon’ a chyhoeddwyd y fendith.

***DIOLCH*** i blant a phobl ifanc yr Eglwys am eu gwaith graenus, i Fand y Priordy am y gerddoriaeth egnïol, ac i'r band taro am eu cynorthwyo

## YSGOL SUL Y PRIORDY’N MWYNHAU GWEITHIO YN YR AWYR AGORED



| | |
|---|---|
|   | ***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***<br>***Y PRIORDY***<br>*Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da* |

**YMWELIAD POBL IFAINC Y PRIORDY (PIP) Â'R CAFFI GYDA TIM A REBECCA HAYES**






**TIM HAYES…**



***TRIP*** byr iawn oedd i griw PIP ar Sul 22 Hydref - yn llythrennol ar draws yr hewl o Ganolfan Magu, trwy'r arcéd, troi i'r dde ac i mewn i gaffi "Coffee#1".

Ar ól i bawb gasglu eu diod a'u dewis o ddanteithion, dringwyd y grisiau yn y cefn tuag at y lolfa fawr lan stâr. Does dim llawer o bobl yn yfed coffi yng Nghaerfyrddin ar fore Sul mae'n amlwg, achos fe gawsom y llofft i gyd i ni ein hunain!



Ar ôl i'r wyth selog hysbysu ei gilydd o'u helyntion dros yr haf, ac adrodd hanes dechrau mewn ysgol uwchradd am y tro cyntaf i rai, neu orchestion chwaraeon a gigiau amrywiol i eraill, cliriwyd y platiau gwag o'r neilltu.

Gêm eiriau oedd nesaf ble roedd angen disgrifio cymaint o enwau neu eiriau â phosib oddi ar garden - heb ddefnyddio'r gair ei hunan wrth gwrs. Cafwyd dipyn o sbri gyda phawb yn brwydro yn erbyn y cloc, ac ambell ddisgrifiad go ryfedd am eiriau cyffredin yn deillio o'r Beibl.



***NÔL*** wedyn i gwrdd â'r rhieni yng Nghanolfan Magu, gyda'n boliau'n llawn!

## YSGOL SUL Y PRIORDY A FU'N CYNNAL GWASANAETH YNG NGHARTREF ERW HIR




**Ein Papur yn cofio…**



**T ROWLAND HUGHES 1903-1949)**

***GANED*** Thomas Rowland Hughes 17 Ebrill 1903 yn Llanberis, yn fab i chwarelwr. Cafodd ei addysg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, lle darllenodd y Gymraeg a'r Saesneg. Bu'n athro yn Aberdâr, Sir Forgannwg, am ddwy flynedd, ac wedi astudio yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, cafodd swydd darlithydd mewn Saesneg a Chymraeg yng Ngholeg Harlech yn 1930. Priododd 26 Awst 1933, â merch o Gwm Ogwr. Yn 1934, fe'i penodwyd yn warden canolfan addysg i oedolion yn Llundain. Dychwelodd i Gymru flwyddyn yn ddiweddarach i gymryd swydd fel cynhyrchydd rhaglenni nodwedd y BBC yng Nghaerdydd. Arhosodd yn ei swydd hyd 1945 ond erbyn hynny roedd yn dioddef yn enbyd o sglerosis cyffredinol, yr afiechyd a'i lladdodd yn 1949, sef 175 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn. Oherwydd y modd y wynebodd ei afiechyd, cyfeiriodd R Williams Parry at T Rowland Hughes mewn englyn a dorrwyd ar ei garreg fedd yng Nghaerdydd fel 'y dewraf o'n hawduron'.


Enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth, 1937, am awdl 'Y Ffin', a chadair eisteddfod Genedlaethol y Radio (a oedd i'w chynnal yn Aberpennar) yn 1940 am awdl 'Pererinion'. Yn ystod ei waeledd y dechreuodd ysgrifennu nofelau. Cyhoeddwyd y gyntaf, *O Law i Law*, yn 1943 a gwelwyd fod nofelydd o faintioli uwchlaw'r cyffredin wedi codi unwaith eto yng Nghymru. Dilynwyd y nofel hon gan nofelau eraill a gyhoeddid bob Nadolig – *William Jones, Yr Ogof, Chwalfa* ac *Y Cychwyn.* Ac eithrio *Yr Ogof*, y chwareli yw cefndir y nofelau a cheir yn *William Jones* fywyd cymoedd y de. Yn Golwg 360 yn ddiweddar gwelsom mai tro allweddol yn ei laslencyndod yng Nghaerdydd oedd darllen ac astudio *William Jones* ar gyfer Lefel O i Deri Tomos, y gwyddonydd o Gymro a fu'n Athro Biocemeg ym Mhrifysgol Bangor cyn ymddeol yn 2016 pan ddaeth yn Athro Emeritws. Ar ôl Daniel Owen, nofelau T Rowland Hughes ac Islwyn Ffowc Elis a achubodd ein llên yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ar adeg y Nadolig 1948 ac



yntau'n bur wael erbyn hynny, cafwyd cyfrol o farddoniaeth gan T Rowland Hughes, *Cân neu Ddwy*. Mae ganddo hefyd ddau emyn yn Caneuon Ffydd – *Tydi a roddaist* 131) a *Dwy law yn erfyn* 139).



Cyfaill a chydweithiwr gyda'r BBC i T Rowland Hughes oedd Arwel Hughes, yr arweinydd cerddorfa a'r cyfansoddwr clasurol o Rosllanerchrugog. Yn 1938, tra oedd ar Orsaf yr Amwythig, gosododd ddarn at ei gilydd mewn byr amser i eiriau a gafodd gan T Rowland hughes. A dyna eni *Tydi a roddaist*. Cafodd yr emyn-dôn ei gyfansoddi'n wreiddol i ddiweddu drama radio ar y BBC o'r enw 'Wales' a ddarlledwyd ar I Mawrth 1938 ac a gafodd ei ailddarlledu ar 29 Rhagfyr 1938.  Erbyn hyn, wrth gwrs, mae *Tydi a roddaist* wedi'i berfformio a'i recordio gan gannoedd o artistiaid a chorau ledled y byd. Cyfieithwyd i'r Saesneg gan Aneurin Talfan Davies yn 1979 – *O Thou that gave the magic dawn*.




**Tydi, a roddaist liw i'r wawr**
**a hud i'r machlud mwyn,**
**tydi, a luniast gerdd a sawr**
**y gwanwyn yn y llwyn,**
**O, cadw ni rhag colli'r hud**
**sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.**

**Tydi, a lunaist gân i'r nant,**
**a'i su i'r goedwig werdd,**
**tydi, a roist i'r awel dant**
**ac i'r eheddyd gerdd,**
**O cadw ni rhag dyfod dydd**
**na yrr ein calon gan yn rhydd.**

**Tydi, a glywaist lithriad traed**
**ar ffordd Calfaria gynt,**
**tydi, a welaist ddafnau gwaed**
**y Gŵr ar ddieithr hynt;**
**O, cadw ni rhag dyfod oes**
**heb goron ddrain na chur na chroes.**

Ysbrydolwyd *Dwy Law yn Erfyn* gan lun Albrecht Dürer *Dwylo'n Gweddïo, 1508*. Mae'r stori am y darlun yn aml yn honni fod Dűrer wedi darlunio dwylo'i frawd Albert – dwylo wedi'u cam-drin o ganlyniad i lafur caled mewn cloddfeydd lleol. Fodd bynnag, mae'r stori hon yn cael ei hystyried i raddau helaeth yn fyth. Mae'n debyg mai'r gwir am y darlun yw ei fod wedi'i greu fel astudiaeth ar gyfer darn allor wedi'i gomisiynu gan y masnachwr Frankfurt Jakob Heller yn 1508.



Mae Cydymaith Caneuon Ffydd yn dweud ei bod yn bosibl honni mai cân grefyddol yn hytrach nag emyn yw'r penillion. Cyhoeddwyd y penillion am y tro cyntaf mewn casgliad enwadol yn Y Caniedydd (1960). Bu'n boblogaidd iawn mewn Ysgolion Sul ac ysgolion dyddiol. Troswyd yr emyn i'r Saesneg,*Two hands imploring are in the picture*, gan Richard B Gillion yn 2020.

**Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun**
**wrth ymyl fy ngwely i;**
**bob bore a nos mae'u gweddi'n un dlos,**
**mi wn er na chlywaf hi.**

**Pan af i gysgu, mae'r ddwy law hynny**
**wrth ymyl fy ngwely i**
**mewn gweddi ar Dduw i'm cadw i'n fyw,**
**mi wn er na chlywaf hi.**

**A phan ddaw'r bore, a'r wawr yn ole**
**wrth ymyl fy ngwely i,**
**mae'r weddi o hyd yn fiwsig i gyd,**
**mi wn er na chlywaf hi.**

**Rhyw nos fach dawel fe ddwg yr awel**
**o ymyl fy ngwely i**
**y weddi i'r sêr, fel eos o bêr,**
**a minnau'n ei chlywed hi.**




**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

**PLANT YSGOL SUL ELIM YN MWYNHAU DANTEITHION AR ÔL BORE O WAITH!**





**Y PLANT**

**WRTH EU GWAITH**

**ETO!**

## Chwiorydd Elim

Cafwyd dechrau ardderchog i dymor newydd Cymdeithas Chwiorydd Elim gydag ymweliad diddorol iawn â gweithdy'r saer coed dawnus, Gwyndaf Davies. Wedi mwynhau paned a chroeso ar yr aelwyd, cafwyd cyfle i ymweld â'r gweithdy a rhyfeddu at y nwyddau pren bendigedig a wnaed ganddo. Diolch yn fawr iawn am y croeso. Prynhawn pleserus iawn



## PANED A SGWRS YN Y LLWYN IORWG



♫  ♫

# CWIS Y GWYRTHIAU

## Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!
## Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!

### Iesu'n bwrw allan ysbryd drwg

**Marc 1: 21-28**



**Wedyn dyma nhw'n mynd i Capernaum. Ar y dydd ----- (pan oedd yr Iddewon yn addoli Duw), aeth Iesu i'r ------- a dechrau dysgu'r bobl. Roedd pawb yn rhyfeddu at beth roedd yn ei ddysgu. Roedd yn wahanol i'r arbenigwyr yn y Gyfraith – roedd ganddo awdurdod oedd yn gwneud i bobl ------ arno. Yna'n sydyn dyma ryw ddyn oedd yn y synagog yn rhoi ----- uchel. (Roedd y dyn wedi'i feddiannu gan ysbryd ----.) "Gad di lonydd i ni, Iesu o Nasareth. Rwyt ti yma i'n dinistrio ni. Dw i'n gwybod pwy wyt ti – Un Sanctaidd Duw!" "Bydd ddistaw!" meddai Iesu'n ddig. "Tyrd allan ohono!" Dyma'r ------ drwg yn gwneud i'r dyn ------ yn ffyrnig, yna daeth allan ohono gyda sgrech uchel. Roedd pawb wedi cael ----, ac yn gofyn i'w gilydd, "Beth sy'n mynd ymlaen? Mae'r hyn mae'n ei ddysgu yn newydd – mae ganddo'r fath --------! Mae hyd yn oed ysbrydion drwg yn gorfod ------- iddo."**

**Atebion – Tudalen 36**

# CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

## Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

## CHÊNE CHAPELLE, FFRAINC



**Caiff y capel ei adnabod hefyd fel Capel y Dderwen.**

**Fe'i lleolir yn Allouville-Bellefosse, pentref bach yn Ffrainc.**

**Yn y 1600au trawyd y goeden gan fellten, aeth ar dân, goroesodd ond gan adael y boncyff yn wag.**

**Mae'r boncyff gwag yn cael ei ddefnyddio yn furiau i ddau gapel a godwyd yn 1696 - *Notre-Dame-de-la-Paix* (*Ein Harglwyddes Heddwch*) and the *Chambre de l'Ermite* (*Ystafell Meudwy*). Maent yn cael eu defnyddio o hyd. Mae grisiau troellog o gwmpas y goeden yn eich tywys i'r capeli.**

**Gweinyddir yr Offeren yno ddwywaith y flwyddyn.**

# BORE COFFI MACMILLAN YNG NGHLWB Y CWINS ABERGWILI YN LLWYDDIANT MAWR!







**Mae'n diolch yn fawr unwaith eto eleni i Alison Parsons a'i thîm a hefyd i'r Maer a'r Faeres, Y Cynghorydd Emlyn a Tina Schiavone, am eu presenoldeb a'u rhodd garedig. Codwyd £1300!**

# IFANC@ELIM,HEOLAWST,PRIORDY

**YR YSGOLION SUL**


Mae'n hyfryd gweld lluniau yn y rhifyn hwn o'r papur o weithgareddau'r Ysgol Sul yn Elim a'r Priordy. Da iawn bawb a diolch i'r athrawon a'r rhieni am eu gwaith. Mae pawb yn brysur yn paratoi ar gyfer ein Cyrddau Diolchgarwch ar hyn o bryd!

**BANC BWYD**

Gwahoddiad caredig i'r plant ddod â nwyddau i'r banc bwyd yn y cyrddau diolchgarwch. Mae'r un apêl yn mynd at yr oedolion. Tuniau, te, coffi, pasta, reis, sudd, llaeth UHT neu rawnfwyd. Diolch o flaen llaw.



## LLIWIWCH Y PWMPENNI!



# CHWILOTAIR LLYTHYREN 'T'

## (Un sgwâr i bob llythyren)

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | R | E | T | B | R | A | U | A | F | M | A | D | T |
| A | A | R | D | I | D | Y | R | T | A | A | B | D | R |
| F | M | H | I | R | T | Y | C | H | I | C | U | S | U |
| E | E | T | T | F | A | S | O | F | F | Y | R | T | G |
| S | S | A | R | S | T | A | N | D | R | I | S | E | A |
| U | I | B | Y | S | O | O | S | A | S | O | M | Y | R |
| E | S | I | F | E | M | T | T | T | S | U | F | R | E |
| H | A | T | F | S | O | O | I | U | R | F | U | N | D |
| T | I | H | E | F | S | T | T | E | M | L | F | A | D |
| O | B | A | N | A | S | I | E | I | S | N | T | S | O |
| M | O | S | A | U | T | I | B | E | R | I | U | S | T |
| I | T | A | N | G | N | E | F | E | D | D | F | Y | D |
| T | I | U | N | T | A | E | E | F | E | D | E | A | T |
| L | A | A | E | H | T | E | H | S | O | T | T | D | S |

TANGNEFEDD
TEML
TRUGAREDD
TAD
TIBERIUS
TOMOS
TRYFFENA
TEYRNAS
TYCHICUS
TOBIAS
TIMOTHEUS
TABITHA
TRYFFOSA
TITUS

Gwasnaeth Nadolig
Ysgol Sul Y Priordy
fore Sul 8 Rhagfyr
am 10.00



Gwasanaeth Nadolig
Ysgol Sul Elim
pnawn Sul 15 Rhagfyr
am 4.00



Hwyl fawr tan y tro nesaf!

Beti-Wyn

## NANSI YN 90 OED



**Derbyniodd dusw o flodau gan ein Gweinidog i nodi'r achlysur**

**Dymuniadau da oddi wrth bob un ohonom!**

**Ein Papur yn Sgwrsio â Phregethwr Cwrdd Diolchgarwch y Priordy**



# YR HYBARCH EILEEN DAVIES ARCHDDIACON ABERTEIFI

**EP: Rych chi'n ffermwraig yn ogystal â chlerigwr. Sut ydych chi'n llwyddo i gyfuno'r ddwy alwedigaeth tybed?**
**ED:** *Mae'r ddwy alwedigaeth yn gweddu i'w gilydd yn dda, am nad yw'r un rhan o'm gwaith yn gyfyngedig i oriau rhwng 9yb a 5yp. Mae rhaid bod ar gael 24 awr y dydd.*




***PP:* Beth am eich cefndir? Soniwch ychydig am eich magwraeth.**
**ED:** *Cefais fy ngeni a'm magu yn Llanllwni ac rwy'n dal i fyw yno. Mynychu Ysgolion Cynradd Llanllwni, Uwchradd Llanbed, a gweithio wedyn ym maes cyfrifon am ddeng mlynedd. Priodi ffermwr, ac yn fam i un mab, gan ddiolch am eu cefnogaeth.*

**EP: Tybed beth a'ch ysgogodd i ddymuno gyrfa eglwysig?**
**ED**: *Wedi fy nhywys i'r Ysgol Sul a'r Eglwys gan wraig oedd yn byw drws nesaf, ei dylanwad hi yn amlwg ar fy mywyd. Hedyn ffydd yn tyfu, rhoed i mi flas ar fyw, a galwad na fedrais ddweud na wrtho.*

**EP: Rych chi'n un o sylfaenwyr Tir Dewi yn 2015. Beth oedd y symbyliad dros ei ffurfio?**
**ED:** *Ffermio fy hunan, gwybod y pwysau, gweld yr angen, a gweithredu yr hyn mae'r Arglwydd Iesu yn ein hannog i wneud - i gerdded gyda'r sawl fedrwn estyn llaw o gymorth iddynt.*

**EP: Mae gweithgarwch ac ardal ddaearyddol elusen Tir Dewi wedi datblygu ac ymestyn dros y blynyddoedd.**

**ED:** *Lansiwyd Tir Dewi yn 2015, i ymateb i anghenion amaethwyr Sir Gâr, Ceredigion a Phenfro, ac ymhen llai na phum mlynedd estynnwyd i Gymru gyfan, am fod y galw am gymorth o fewn y diwydiant amaethyddol yn cynyddu bob dydd.*

**EP: Cawsoch eich penodi'n Archddiacon Aberteifi yn 2019 – y ferch gyntaf i dderbyn yr anrhydedd o fewn Esgobaeth Tyddewi. Allwch chi esbonio i ni beth yn union yw dyletswyddau archddiacon?**
**ED:** *Swyddogaeth Archddiacon yw gofalu'n fugeiliol dros Offeiriaid a'u teuluoedd o fewn ardal benodedig, gofalu am fuddiannau'r eglwysi a'u cynulleidfaoedd, a bod yn gynrychiolydd yr Esgob yn eich ardal.*

**EP: Rych chi'n parhau i wasanaethu plwyfi yn ogystal. A yw'r gwaith hwn wrth eich bodd?**
**ED:** *Gwasanaethu o fewn eglwysi a phlwyfi yw'r gwaith sydd wrth fy modd - bod ynghanol pobl o bob oed a chefndir a chael y fraint o rannu yn eu llawenydd a'u cefnogi mewn tristwch*.

**EP: Beth, yn eich barn chi, yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Eglwys yng Nghymru heddiw?**
**ED:** *Cael pobl o bob oed i werthfawrogi gwerth ffydd gadarn.*






**EP: Rych chi'n berson hynod o brysur ond mae'n siŵr bod cyfle i ymlacio bob yn hyn a hyn. Beth wnewch chi'r pryd hynny tybed?**
**ED:***Cerdded yw fy nihangfa.*

**EP:Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. A allwch chi gynnig gair o galondid i ni Gristnogion yng Nghymru yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain?**
**ED:** *Daliwn ati i wasanaethu, oherwydd fel dywed yr emynydd Tydi a roddaist i mi flas ar fyw.*



***Llawer o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich cwmni yn ein Gŵyl Ddiolchgarwch.***

# RHAGOR O LUNIAU O FORE COFFI MACMILLAN









**AR WERTH YN YSTOD MIS HYDREF!**



**Pwdinau Nadolig Cartref wedi'u gwneud o gynhwysion Masnach Deg - £20 yr un a phob ceiniog o'r arian yn mynd at Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Rhowch eich archeb i Beti-Wyn cyn gynted a phosib, os gwelwch yn dda. Dim ond 10 pwdin sydd ganddi!**

***Diolch i Menna Lloyd Williams am ei gwaith yn hybu'r apêl hon.***

**CWRDD CHWARTER**
**BETHLEHEM NEWYDD**
**SANCLÊR**
**SA33 4AN**



**Dydd Iau, 21 Tachwedd 2024**

Y Gynhadledd am 10.30 a'r Cyfarfod Blynyddol am 1.30



Croesawu'r Cadeirydd newydd, sef Jean Lewis. Bydd Cymundeb. Ceir anerchiad gan y Cadeirydd newydd.

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb



## PANED A SGWRS



**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Bore Mawrth - 10.30**
**5 Tachwedd 2024**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

## PUMED SUL Y MIS!

***DAETH*** capeli Cymraeg ein tref ynghyd ar fore'r pumed Sul i gydaddoli a'r tro hwn cynhaliwyd yr oedfa yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg.

Estynnodd ein Gweinidog groeso i bawb i gyfforddusrwydd lolfa'r Llwyn Iorwg. Roedd hi'n amlwg y bu prysurdeb mawr yn trefnu'r ystafell ar gyfer yr oedfa.

Teyrngarwch oedd sylfaen a thema'r oedfa. Esboniodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod fel mae Duw drwy Iesu bob amser yn ffyddlon a theyrngar i ni. Ein braint ni felly yw estyn ein teyrngarwch i Dduw ac i'r dystiolaeth Gristnogol mewn gweddi, gwasanaeth a gwaith. Her yr Eglwys Gristnogol heddiw, er gwaethaf popeth, yw dal ati a dyfalbarhau i ddilyn ffordd ragorach Iesu.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Emyr James (Y Tabernacl), Olga Williams (HA), Brian Walters (E) ac Alwen Owen (P). Darllenwyd darn o'r Beibl yn sôn am alw'r disgyblion cyntaf gan Siôn Page, gŵr ifanc sy'n paratoi i fod yn bregethwr ac yn derbyn hofforddiant gan ein Gweinidog. Roedd Heather Williams wrth yr organ. Y cyhoeddwr oedd Dennis Jones a'r casglyddion oedd Adrian Evans a Huw Jones. Diolch yn arbennig i Is-Bwyllgor y Dyfodol (P) am y gwaith paratoi ac am estyn croeso i bawb, yn enwedig i Jayne Woods ar yr achlysur hwn.

Yn dilyn yr oedfa cawsom ymlacio uwchben paned o goffi tra oeddem yn edrych ymlaen at Ginio'r Ofalaeth. Chawson ni mo'n siomi wrth y byrddau ychwaith gan fod y bwyd a'r cwmni mor dda. Capel Cana drefnodd y cinio ac mae'n dyled i Mair Jones yn bennaf a hefyd Ann Walters (E), Olga Williams (HA), Joanna Richards (B) a Rhian Jones (P) am ei chynorthwyo gyda chasglu'r enwau ac ati. Sulwyn Thomas, Cadeirydd Swyddogion yr Ofalaeth, dalodd y diolchiadau yn ei ffordd hwyliog ei hunan, gan gyfeirio'n briodol hefyd at holl waith ein Gweinidog yn trefnu'r bore cyfan.

***SUL*** llwyddiannus iawn unwaith eto.

**CWRDD DIOLCHGARWCH MERCHED Y WAWR PENIEL**
**Nos Fercher 16 Hydref 2024 – Y Priordy – 7**
**Cadeirydd – Catrin Heledd**
**Anerchiad gan yr Athro Mererid Hopwood**

## CINIO SUL YR OFALAETH



## CORNEL

## CODI GWÊN!

**Beth sy'n gwneud pregeth dda?**

**Wel rhaid cael dechrau da iddi a diwedd da a cheisio gwneud yn siŵr bod y ddau beth mor agos â phosib at ei gilydd!**

**PLANT YSGOL SUL ELIM YN PLANNU BYLBIAU A BLODAU**



# OEDFA'R PRIORDY YNG NGHANOLFAN MAGU



Roedd 21 Medi yn Ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch. Sefydlwyd y diwrnod hwn yn 1981 gan y Cenhedloedd Unedig a chafodd ei gadw'n ddiwrnod arbennig ledled y byd bob blwyddyn ers hynny.  Mae'r diwrnod yn annog pobl i ymrwymo i heddwch uwchlaw pob gwahaniaeth arall. Yma yng Nghaerfyrddin rydyn ni'n codi Baner heddwch yn flynyddol ar y diwrnod hwn. A chydio yn y thema hon wnaeth ein Gweinidog ar y Sul canlynol, gan ystyried y gwahanol symbolau yn ymwneud â heddwch a'u hystyron y mae'r Goeden Heddwch yn eu cynnig, a rhoi sylw manwl i'r neges Gristnogol a grym cariad Crist sydd ynghlwm wrthynt.

Cynhaliwyd yr oedfa yn amgylchedd hyfryd y lolfa yng Nghanolfan Magu. Diolch I bawb a fu'n trefnu ymlaen llaw ac ar y diwrnod. Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ a Dennis Jones oedd y cyhoeddwr. Diolch i Greta a Beca am gasglu a Catrin Jones am y darlleniad. Roedd PIP (Pobl Ifainc y Priordy) a'r Ysgol Sul hefyd yn cyfarfod. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn ar y diwedd – diolch i'r tîm o chwiorydd. Bu Elim a Heol Awst yn dilyn yr un oedfa yn y prynhawn gyda'n Gweinidog a Siôn Page yn cymryd rhan.



Mae'n amlwg fod y plant wedi'u cyffroi gan hanes Iesu'n tawelu'r storm yn yr Ysgol Sul a diweddglo hyfryd i'r bore oedd eu clywed yn adrodd adnod gyda'i gilydd ar eu cof: *Pwy yw hwn y mae hyd yn oed y gwynt a'r glaw yn ufudd iddo!* Diolch i'r plant am ein hatgoffa y gallwn ymddiried yn Iesu Fab Duw beth bynnag yw'r stormydd sydd yn ein bywydau.

| ROTA YMWELWYR ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY<br>*MEDI / HYDREF    TACHWEDD / RHAGFYR* | |
|---|---|
| **E – Yr Aelodau    HA – Yr Aelodau** | |
| **P - Medi / Hydref**<br>Ein Gweinidog | **P - Tachwedd / Rhagfyr**<br>Catrin H Jones, Betsan James, Eirlys Davies, Margaret Ll Evans |

| DYLETSWYDDAU'R SUL - HEOL AWST | |
|---|---|
| **Hydref**<br>**Ernest Jones a Dave Thomas** | **Tachwedd**<br>**Alun ac Olga Williams** |

## DYLETSWYDDAU'R PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Hydref | | Tachwedd | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Sulwyn Thomas | Adrian Evans | Jayne Woods | **Huw Jones** |

## BLODAU

| **Hydref** | **6** | Beti-Wyn James | **Tachwedd** | **3** | **Di-enw** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **13** | | | **10** | |
| | **20** | Eira Phillips | | **17** | Gloria Evans |
| | **27** | | | **24** | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| **Hydref** | **6** | **Hwyr** | Llinos Jones ac Elen Marks |
|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **1** | **Bore** | Mwynwen Jones a Thelma Evans |

## DARLLENWYR

| **Hydref** | **6** | Y Plant | **Tachwedd** | **3** | Y Plant |
|---|---|---|---|---|---|
| | **13** | Yn Heol Awst | | **10** | Eirlys Davies |
| | **20** | Meleri Ll O'Leary | | **17** | Sulwyn Thomas |
| | **27** | Gareth Gravell | | **24** | Dennis Jones |

## CYHOEDDWYR

| **Hydref** | Elis Jones | **Tachwedd** | Huw Michael |
|---|---|---|---|

## Y DIWEDDAR GWYNN BOWYER

Tristwch mawr oedd deall ein bod wedi colli Gwynn. Bu farw yn heddychlon yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Glangwili ar 6 Awst, wedi cyfnod byr o salwch.



Ganwyd Gwynn yn Y Rhondda. Roedd ei dad, y Parchg Gwilym Bowyer yn weinidog ar Eglwys Soar, Cwm Clydach, Treorci. Gyda chymylau bygythiol yr Ail Rhyfel Byd yn taflu eu cysgod ar draws y byd, derbyniodd y Parchg Gwilym Bowyer alwad i fugeilio Capel Y Borough, yn Llundain yn 1939. Anfonwyd Gwynn i Benmaenmawr at deulu ei fam, cyn ymgartrefu yn Llan Ffestiniog wedi i'w fam adael y ddinas fawr er mwyn ei diogelwch ei hun. Symudodd y teulu i Fangor yn 1943 wedi i'w dad dderbyn galwad i fugeilio Eglwys Ebeneser, Bangor. Ymhen rhai blynyddoedd penodwyd Gwilym Bowyer yn Brifathro Coleg Bala-Bangor.

Wedi gorffen ei addysg elfennol, cyflwynodd Gwynn ei hun fel ymgeisydd i'r weinidogaeth ac fe'i hyfforddwyd ym Mala-Bangor a'i ordeinio yn 1960 yng ngofalaeth Ganllwyd, Llanfachraeth, Llanelltyd a'r Borth yn Sir Feirionnydd. Symudodd i'r de yn 1966 gan dderbyn galwad i fugeilio eglwys Brynteg, Gorseinon. Yn dilyn cyfnod yn y weindogaeth, bu Gwynn yn gweithio i'r Urdd cyn troi at fyd yswiriant, gan dreulio gweddill ei yrfa yn y maes hwn a sefydlu busnes ei hun yng Nghaerfyrddin. Un o ddoniau Gwynn oedd y gallu i sgwrsio â phawb o bob cefndir, diwylliant a chrefydd. Arweiniodd ei daith gerdded ddyddiol i'r dref a'i gwmni dros baned mewn caffi at iddo ddod yn gymeriad amlwg a phoblogaidd yng Nghaerfyrddin a chylch ei gyfeillion yn eang iawn. Bu ef ac Ann yn byw yn ddedwydd eu byd yng Nghaerfyrddin. Daeth eu busnes Gwely a Brecwast, Y Dderwen Fach, yn gyrchfan poblogaidd i amrywiaeth o ymwelwyr ar hyd y blynyddoedd a Gwynn wrth ei fodd yn sgwrsio â phawb gan wahodd nifer ohononynt yn eu tro i'r oedfa ar y Sul.

Roedd Gwynn yn heddychwr ac yn genedlaetholwr o'i goryn i'w sawdl a bu'n egnïol iawn ei gyfraniad i'r naill gyfeiriad a'r llall. Bu'n aelod yng Nghapel Y Priordy ers nifer o flynyddoedd gan fod yn ffyddlon i bob agwedd ar fywyd yr eglwys ac yn ffrind da a chefnogol i weinidog. Llwyddodd i ddenu sawl aelod newydd i gymdeithas yr eglwys. Roedd yn bresenoldeb cyson, tawel a gwerthfawrogol mewn oedfa ond yn barod iawn i gyfrannu'n llafar mewn cyfarfodydd eglwys. Roedd gan Gwynn y gallu i feddwl y tu fas i'r blwch ac roedd yn ŵr o weledigaeth a phob amser yn llawn syniadau newydd.

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i Gapel Y Priordy, Caerfyrddin bnawn Llun, 2 Medi i oedfa i ddiolch am ei fywyd a'i waith. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog, gyda chymorth Y Parchgn. Guto Prys ap Gwynfor, Edward Mathias Jones, Guto Llywelyn, Dyfrig Rees ynghyd ag Alun Lenny. Wedi'r oedfa, ymlwybrodd y teulu i Amlosgfa Llanelli. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Ann ei briod, ynghyd ag Ann ei chwaer a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.

*'Y mae'n newydd loer yfory, a gwelir dy eisiau nawr bod dy le yn wag' 1 Samuel 20:18*

**Ein Gweinidog**

## Y DIWEDDAR BRIAN THOMAS



Tristwch mawr i aelodau Heol Awst oedd ffarwelio â'r diweddar Brian Thomas a fu farw'n dawel yn Ysbyty Glangwili ar 29 Awst 2024.

Cofiwn am Brian fel gŵr cyfeillgar a hwyliog ac yn un a oedd y barod iawn ei gymwynas bob amser.

Yn enedigol o Talog, a'i fagu yng Nghapel Blaenycoed, daeth yn aelod yng Nghapel Heol Awst wedi priodi â Freda a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar o gymdeithas yr eglwys. Wedi ei hyfforddi fel trydanwr, roedd yn weithiwr cydwybodol a thrylwyr iawn, ac yn un a gymerai falchder mawr yn ei waith. Bu'n hynod o gymwynasgar gyda materion trydanol a thechnegol yn y capel, yn arbennig adeg Y Blygain ac mewn cyngherddau.

Ymgartrefodd Brian a Freda ymhen peth amser ar ôl priodi yn Heol Llansteffan, Tre Ioan, gan ddod yn gymdogion cyfeillgar a hoffus a bu'r aelwyd, y garej a'r ardd yn fwrlwm o fywyd a gweithgarwch gyda Brian!  Rhannodd y ddau fywyd priodasol hir a dedwydd gan fagu dwy o ferched, Linda a Lynette.

Dilynodd y merched eu llwybrau eu hunain a arweinodd at Linda'n ymgartefu yn yr Alban a Lynette yn UDA. Er y pellter, meistrolodd Brian y dechnoleg ddiweddaraf er mwyn cadw mewn cyswllt â'r teulu a oedd bellach wedi ehangu i gynnwys wyrion a wyresau ac un gor-wyres fach. Roedd yn wyliwr cyson o'r Oedfa Ddigidol ar fore Sul dros Youtube.

Gwerthfawrogwyd ymweliadau cyson aelodau Heol Awst â'r aelwyd yn Heol Llansteffan. Gwelir eisiau Brian yn fawr iawn ond erys yr atgofion melys amdano yn fyw yn y cof.  Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Freda Thomas a dymunwn bob bendith iddi yn ei chartref newydd yng Nghartref Gofal Castell Tywi. Meddyliwn hefyd am Linda a Lynette a'u teuluoedd a'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

Daeth cynulleidfa barchus ynghyd i Gapel Heol Awst ar 16 Medi i oedfa i ddiolch i Dduw am ei fywyd a'i waith. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog ynghyd â'r Parchg Tom Defis. Darlledwyd yr oedfa yn fyw o Gapel Heol Awst i'r Alban ac UDA ar gyfer yr wyrion a'r wyresau. Wedi'r oedfa gyhoeddus, ymlwybrwyd yn dawel fach i Amlosgfa Parc Gwyn ar gyfer oedfa breifat.

Da was, da a ffyddlon.

**Ein Gweinidog**

**Y DDIWEDDAR EIRWEN JONES**



Tristwch i bawb yn Elim oedd clywed am golli Eirwen Jones, Nantyrarian, a fu farw ar 11 Medi 2024 yn Ysbyty Treforys.

Magwyd Eirwen yn Nhrefechan a Lôn Pisgwydd, yn rhan o deulu â'i wreiddiau'n ddwfn yn y fro hon.

Aelwyd ysbrydol y teulu oedd Elim, Ffynnon-ddrain.

Treuliodd ei bywyd yn myd addysg gan addysgu yn Llundain a Chaerfyrddin. Bydd llawer o blant y dref yn ei chofio'n addysgu yn Ysgol Y Model. Roedd yn athrawes uchel ei pharch ymhlith y disgyblion a'i chydweithwyr, a bu'n fawr ei dylanwad ar genedlaethau o blant.

Priododd â Michael, a oedd hefyd yn aelod yn Elim, a ganwyd iddynt ddau fab, Chris a Peter. Roedd Eirwen yn meddwl y byd o'i theulu a'i theulu yn meddwl y byd ohoni hi. Daeth yn fam-gu balch gan greu atgofion hyfryd ymhlith holl genedlaethau'r teulu.

Roedd ganddi lu o gyfeillion a byddai'n cwrdd yn aml am baned gyda'i chyd-athrawon. Gwnaeth lawer o gyfeillion hefyd trwy Probus.

Afraid dweud ei bod wedi gadael bwlch ar ei hôl ymhlith ei chydnabod, ond gwyddom oll y bydd y bwlch mwyaf adre ar yr aelwyd gyda'i theulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i chymar oes, Mike, ynghyd â Chris, Peter a'u teuluoedd ac aelodau o'r teulu estynedig.

Daeth cynulleidfa fawr ynghyd i Barc Gwyn b'nawn Iau, 26 Medi, i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog. Rhoddir ei llwch i orwedd ym mynwent Elim maes o law.

*Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth*

**Ein Gweinidog**

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Janet Evans (HA), Desmond Evans (HA), Harry Evans (P) a Daisy Devonald (HA). Cofion cynnes atoch i gyd.

Gwelwyd y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths (P) ar Newyddion S4C yn sôn fel y gallai problemau parcio yn Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin



gael eu datrys, diolch i orsaf reilffordd gyfagos. Bydd Rheilffordd Gwili yn darparu mannau parcio pwrpasol i staff yr ysbyty. Mae parcio wedi bod yn broblem ar y safle am flynyddoedd, gyda chiwiau yn achosi tagfeydd. Yn ôl cynghorwyr, sydd wedi bod yn ymgyrchu ers blynyddoedd i ddelio â'r problemau parcio, mae'r “diwedd yn nesáu” i’r diflastod mae trigolion lleol wedi ei wynebu.

Clywsom y Cynghorydd Emlyn Schiavone (P) yn cymryd rhan mewn eitem ar Radio Cymru, S4C a BBC Wales yn sôn am fwriad pâr priod sydd wedi prynu capel Penuel yn Heol y Prior i greu amgueddfa ar gyfer y goruwchnaturiol ar y safle. Dywedodd Eglwys Penuel, a oedd yn arfer cynnal gwasanaethau yn yr adeilad, nad yw'r cynlluniau yn ‘cyd-fynd ag ethos, gwerthoedd a chredoau ein heglwys.’

Mae 30 Medi yn ddiwrnod Waldo – achlysur arbennig yng nghalendr Cymru. Penderfynodd Cymdeithas Waldo gynnal Darlith Flynyddol ar y diwrnod hwn a hynny er mwyn dehongli gweledigaeth fawr Waldo. Erbyn hyn mae’r holl ddarlithiau wedi’u casglu ynghyd â lluniau lliw mewn un gyfrol, Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010-24 (Pris- £30). Cafodd y gyfrol ei lansio ar ôl darlith ddiweddaraf y Gymdeithas, sef darlith gan Menna Elfyn (P), ar brynhawn Gwener 27 Medi yn Tŷ Trafod, Campws Pen-glais, Prifysgol Aberystwyth.

Ganwyd Iago Gwyn Ifan i Siwan a Guto Ifan, ŵyr newydd i Tudur Dylan ac Enid Jones (P). Ganwyd Cerith James i Laura ac Ian Wellings, ŵyr arall i Alison a Roger Evans a gor-ŵyr arall i Mary Evans (E). Llongyfarchiadau mawr i’r ddau deulu.



Pob dymuniad da oddi wrth bob un ohonom i Peter a Meinir Hughes Griffiths (P) a fydd yn dathlu 55 mlynedd o briodas ar 25 Hydref.



Llongyfarchiadau i Dorian Jones (Dorian Tŷ Capel HA) a Yolanda Shenton ar eu priodas ar 12 Hydref, 2024. Dymuniadau gorau i'r ddau ac i'r plant, Gwen, a'r gefeilliaid Evie a Connor.

Llwyddodd Ian Marks (HA) i gwblhau 'Ironman Cymru' yn ddiweddar yn Ninbych-y-pysgod.  Ardderchog! A mynd o nerth i nerth mae'r band Iwtopia y mae Tomos Morgans (P) yn aelod ohono! Cyfeiriodd Osian Hayes (P) yn ei erthygl yn ein Papur y mis diwerthaf fod y band Tri Gŵr Noeth y mae'n perthyn iddo ac Iwtopia, drwy'r Egin, wedi cael cyfle i recordio dros wythnosau'r haf. A chafodd band arall, Penne Orenne, yn cynnwys Luned Ifan ac Olwen Williams (P), hefyd yr un cyfle.

***EIN*** dymuniadau gorau i Hazel Julian (E) a fydd yn dathlu'i phen-blwydd yn 90 ar 27 Hydref. Felly hefyd i Brinley Enoch (HA) ar ei ben-blwydd yn 100 oed ar 4 Hydref - edrychwn ymlaen at ddathlu'r achlysur hapus hwn yn Festri Heol Awst, Dydd Mawrth, 8 Hydref am 2 o'r gloch gyda The Prynhawn.  Croeso cynnes iawn i bawb.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CINIO DIOLCHGARWCH Y GYMDEITHAS**

**Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024**

**Gwesty'r Hebog 12 erbyn 12.30**

**Enwau i Olga Williams (HA) erbyn Dydd Sul 13 Hydref, os gwelwch yn dda.**




**CWIS Y GWYRTHIAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Saboth | 6 | ysbryd |
| 2 | synagog | 7 | ysgwyd |
| 3 | wrando | 8 | sioc |
| 4 | sgrech | 9 | awdurdod |
| 5 | drwg | 10 | ufuddhau |

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Rebecca a Tim Hayes ac Osian a Trystan (P) ar golli Keith Jones, Capel Hendre, priod Ray, tad Rebecca a thad-cu'r plant.**

**Cadi Wyn, Hedd ac Ilan (Ysgol Sul y Priordy), ynghyd â'u rhieni, Carys a Gareth, ar farwolaeth mam-gu Gareth, sef Glenys Mary Jones o Gaio, Llanwrda.**

**Roy James (HA) ar farwolaeth ei nai, Eric Anthony, Clydau, Llanfyrnach.**

**Dave Thomas (HA) ar golli'i chwaer yng nghyfraith, Beryl Williams, Caerdydd, priod Selwyn, a chwaer Anita, diweddar briod Dave.**

**Hazel Julian (E) ar farwolaeth ei phriod, Lewis Julian, Plas-y-dderwen, Caerfyrddin.**

**Dorian Lewis (HA) ar golli'i brawd yng nghyfraith Derek Lewis, gynt o Felin-wen, sef brawd ei gŵr Onville.**

**Leah Thomas, (HA) ar farwolaeth ei brawd, Gerald Davies, Yr Hendy.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth**

**GWASANAETH CARTREF**
**PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Iau – 10 Hydref 2024**
**2.30**
***gyda'n***
**Gweinidog**




## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Carys Morgans, Tim Hayes ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn

## SULIADUR YR OFALAETH



## HYDREF / TACHWEDD 2024

| DYDDIAD AC AMSER | 10.00 | 11.30 | 3.00 | 5.00 |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref 6** | Priordy<br>Ein Gweinidog<br>Oedfa Deulu<br>Ddiolchgarwch | Elim - *Cymun*<br>(a Heol Awst)<br>Ein Gweinidog<br>Oedfa Deulu<br>Ddiolchgarwch | | Priordy - *Cymun*<br>Ein Gweinidog<br>a'r Hybarch<br>Eileen Davies |
| **Hydref 13** | Heol Awst –<br>*Cymun*<br>(a Priordy ac Elim)<br>Ein Gweinidog<br>Oedfa<br>Ddiolchgarwch | | | |
| **Hydref 20** | Priordy<br>Parchg Evan<br>Morgan | Elim<br>(a Heol Awst)<br>Parchg Randolph<br>Thomas | | |
| **Hydref 27** | Priordy<br>Ein Gweinidog | | Heol Awst<br>(ac Elim)<br>Ein Gweinidog | |
| **Tachwedd 3** | Priordy – *Cymun*<br>Ein Gweinidog<br>Oedfa Deulu | Elin - *Cymun*<br>(a Heol Awst)<br>Ein Gweinidog | | |
| **Tachwedd 10** | Priordy<br>Ein Gweindiog | | Heol Awst - *Cymun*<br>(ac Elim)<br>Ein Gweinidog | |
| **Tachwedd 17** | Priordy<br>Parchg Gareth<br>Morgan Jones | Elim<br>(a Heol Awst)<br>Margaret Griffiths | | |
| **Tachwedd 24** | Priordy<br>Ein Gweindiog | | Heol Awst<br>(ac Elim)<br>Ein Gweinidog | |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL



**Elim**

**6 Hydref - Oedfa Deulu**
**13 Hydref - YS**
**20 Hydref -YS**
**27 Hydref - Dim Ysgol Sul**

**Y Priordy**

**6 Hydref - Oedfa Deulu**
**13 Hydref - YS**
**20 Hydref - YS a PIP**
**27 Hydref - Dim Ysgol Sul**



## CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH





Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi llwyddiant y Gymanfa Ganu eleni yng Nghapel Elim, Nos Sul, 29 Medi.

Cafwyd Cymanfa Ganu fendithiol iawn o dan arweiniad Sioned Page Jones ac fe estynnodd y Cadeirydd, Meinir James, ein cydymdeimlad diffuant â Sioned a'r teulu oll ar golli ei Mam yn ddiweddar, Elsbeth Page, Blaenycoed. Gobeithio y daw cysur a nerth o'r atgofion melys iddynt yn y cyfnod anodd hwn.



Diolch hefyd i'r Organydd, John Evans, Elim.

## CYRDDAU DIOLCHGARWCH YR OFALAETH



**Y Priordy**
**Dydd Sul, 6 Hydref**
Oedfa'r Plant am 10.00
Oedfa Gymun Undebol am 5.00
Yr oedfaon yng nghwmni Beti-Wyn ac eraill.
Pregethir yn yr hwyr gan yr Hybarch Eileen Davies
Swper i ddilyn yn y festri



**Elim**
**Dydd Sul, 6 Hydref am 11.30**
Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol
yng nghwmni Beti-Wyn ac eraill

**Cana**
**Nos Iau, 10 Hydref**
**Cwrdd Pregethu am 7.00**
Pregethir gan Y Parchg Gwyn Elfyn Jones
Swper i ddilyn
**Sul, 13 Hydref**
Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol am 3.00
yng nghwmni Beti-Wyn ac eraill

**Heol Awst**
**Dydd Sul 13 Hydref**
Oedfa Ddiolchgarwch am 10.00
yng nghmwni Beti-Wyn ac eraill.

**Bancyfelin**
**Dydd Sul 13 Hydref am 1.30**
Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol
yng nghwmni Beti-Wyn ac eraill
**Nos Iau 17 Hydref**
**Cwrdd Pregethu am 7.00**
Pregethir gan Y Parchg Heulwen Evans
Swper i ddilyn

***Byddwn yn casglu nwyddau tuag at Fanc Bwyd Tre Ioan yn ystod ein Cyrddau Diolchgarwch eleni***